

## ❖ HOMILI'R ADFENT

**Anfon Gair**

Anfon gair a wnawn ni.

Anfon Gair a wnaeth Duw.

Mae'r Nadolig yn gyfle arbennig i ni gyfarch ein gilydd fel teuluoedd a ffrindiau mewn gwahanol ffyrdd, ac un o'r rhai amlycaf ohonynt, wrth gwrs, yw mewn cerdyn Nadolig. 'Anfon gair' mewn geiriau eraill.

Y peth pwysig amdano yw ei fod yn ein cadw mewn perthynas ac mewn cysylltiad â'n gilydd a hynny mewn ffordd gyfeillgar-gynnes, garedig a gwâr.

Nid oes dim mewn bywyd yn bwysicach na chadw mewn perthynas. Dyma sylfaen pob cymdeithas wâr. A dyma sy'n gwneud pob rhyfel yn bechod gan ei fod yn chwalu perthynas gwlad a gwlad, pobl a phobl, dyn a dyn. Dilëir perthynas. Torrir cysylltiad. Ac mae gwagle.

Gellir anfon gair hefyd trwy llythyr.

Un peth sy'n well gennyf nag ysgrifennu llythyr (ac nid yw'r dasg honno'n faich o gwbl fel i ambell un) yw derbyn llythyr. Yn ein hoes ffonio ffwrdd-â-hi ni, aeth y llythyr yn llai pwysig – gyda'r canlyniadau anochel.

Weithiau collir cynnwys y sgwrs ar y ffôn bron yn syth wedi ei chynnal ond gellir darllen y llythyr droeon a thro. A mwynhau wrth gwrs.

O bob llythyr, mae'n debyg mai un o'r rhai pwysicaf yw'r llythyr caru. Ni cheir llythyr mwy personol, annwyl nac unigryw ag ef. Mae pob gair a phob meddwl ynddo'n bwysig i'r derbynydd. Llythyr caru yw.

Erys rhai o lythyrau caru enwogion mewn hanes ar gael i'w mwynhau o hyd.

Dywedir bod 573 o lythyrau felly yn stori garu fawr Elizabeth Barrett a Robert Browning.

Yn y byd cyfnewidiol hwn fe bery'r llythyr caru ar gael 'tra bo dau' mewn unrhyw wlad, mewn unrhyw dref, mewn unrhyw bentref.

Anfon gair o Gariad yw stori'r Nadolig cyntaf. 'Canys felly carodd Duw y byd...' Gyda llaw, pe bai gan bregethwr un bregeth yn unig i'w phregethu yn ei fywyd a dewis un adnod yn destun, pa bregeth a pha destun fyddai'r rheini? Dewiswn yr adnod hon yn Ioan 3:16: 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.'

Dyna'r Efengyl ryfeddol mewn brawddeg. Cariad yw ei hanfod, ei dechrau a'i diwedd.

'... y Gair a wnaethpwyd yn gnawd.'

Yr unig beth gwell na derbyn llythyr yw cael cwmni'r llythyrwr.

Dyna ddigwyddodd yn stori'r Nadolig – Y Gair yn dod yn gnawd, ac ni all y Gair ddod yn agosach. Bryd hynny daw'r Gair yn fyw mewn gwirionedd.

Y Nadolig hwn eto, mae'r Gair mor fyw ag erioed.

**Huw Ethall**